# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 18fed MAWRTH, 2021

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00YB

Lleoliad

**Yn Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Einir Rhian Davies**

**01286 679868**

**einirrhiandavies@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 10 Mawrth 2021)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Alan Jones Evans
Linda Ann Jones
Dafydd Owen
Linda Morgan

Annwen Daniels
Gareth Tudor Morris Jones
Olaf Cai Larsen
Berwyn Parry Jones
Rheinallt Puw

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Richard Medwyn Hughes
Beth Lawton
Angela Russell

Eryl Jones-Williams
Dewi Wyn Roberts

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Anwen J. Davies

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

## Y Blaid Genedlaethol (1)

Y Cynghorydd

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Ionawr, 2021 fel rhai cywir.

## 5. DARPARIAETH GOFAL A THAI YCHWANEGOL AR SAFLE PENRHOS, PWLLHELI — 8 - 12

I ystyried Adroddiad ar yr uchod

## 6. DEFNYDD O'R GRANT CYMORTH TAI I LEIHAU DIGARTREFEDD YNG NGWYNEDD — 13 - 22

Craffu'r cyfeiriad y bwriedir ei gymryd er mwyn sicrhau fod y Grant Cymorth Tai yn arwain at y gefnogaeth orau posib i'r digartref yng Ngwynedd ac i geisio atal digartrefedd yn y dyfodol.

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL
# 14/01/21

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Dewi Roberts (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Beth Lawton (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines, Annwen Daniels, Anwen J Davies, Alan Jones Evans, Berwyn Parry Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams, Olaf Cai Larsen, Linda Morgan, Dafydd Owen, Rheinallt Puw, Angela Russell

**Aelod Ex-officio**: Y Cynghorydd Edgar W Owen

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Einir Rhian Davies (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant a Pherthynas gyda'r Gwasanaeth Iechyd), Aled Davies (Pennaeth Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant), Mari W Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant), Matthew Hawes (Arweinydd Therapi Galwedigaethol Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd R Medwyn Hughes a’r Cynghorydd Peter Reid

**2. DATGAN BUDDIANT**

Derbyniwyd y datganiadau o fuddiant personol isod, gan fod yr unigolion/eu teuluoedd wedi ymwneud a’r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol yn eu bywydau personol :

Y Cynghorydd Menna Baines

Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams

Y Cynghorydd Cai Larsen

Y Cynghorydd Linda Morgan

Y Cynghorydd Angela Russell

**3. MATERION BRYS**

Dim i’w nodi.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2020 fel rhai cywir.

## 5. GWASANAETH THERAPI GALWEDIGAETHOL, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Arweinydd Therapi Galwedigaethol (ATG) er mwyn rhoi trosolwg o waith y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol yn ogystal â'r heriau yn sgil Covid-19.

Nodwyd bod Covid wedi cael effaith aruthrol ar y Gwasanaeth, a bod y rhagolygon yn awgrymu y bydd cynnydd mawr yn y gofyn am y gwasanaeth. Ategwyd bod y cynnydd o ganlyniad i'r nifer sydd wedi bod yn cysgodi dros y cyfnod Covid a ddim wedi bod yn cysylltu â'r gwasanaeth yn amserol ac effaith hir dymor Covid ar iechyd unigolion. Nodwyd bod angen i'r gwasanaeth ddatblygu i fod yn fwy rhagweithiol er mwyn cyflawni yr hyn sydd yn bwysig i'r unigolyn. Nodwyd hefyd y byddai rhoi cefnogaeth ataliol yn fwy cost effeithiol i'r Cyngor.

Cyflwynodd yr arweinydd ATG ei hun i'r cyfarfod. Mae wedi ei benodi i'r rôl ers cyfnod o flwyddyn. Nododd yr ATG ei fod wedi cael cyfle dros y flwyddyn ddiwethaf i adolygu y gwasanaeth therapi galwedigaethol a nodi blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf i sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol, gyda phwyslais ar wasanaethau arbedol, a chynnal ac adennill sgiliau. Ychwanegodd nad yw aros yn llonydd yn opsiwn ac mai'r peth pwysig yw cael gwasanaeth o safon sydd yn cynnig gwerth am arian i'r unigolyn a'r Cyngor. Ymhelaethodd bod bylchau wedi bod yn y gwasanaeth o ran staff o ganlyniad i ymddeoliad dau swyddog profiadol iawn a nifer i ffwrdd a'r gyfnod mamolaeth ond eu bod wedi llwyddo i recriwtio i'r swyddi i gyd.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch llwybr unigolyn o'r ysbyty a'r cydweithio rhwng Iechyd a'r Cyngor nododd yr ATG mai yr ysbyty sydd yn cychwyn y gwaith gyda'r unigolyn. Un broblem o ganlyniad i Covid yw'r pwysau sydd ar ysbytai i ryddhau cleientiaid, gan gynnwys rhai gydag anghenion cymhleth. Mae gwaith yn cael ei gynnal i adolygu mewnbwn Therapi Galwedigaethol i gefnogi rhyddhau o'r ysbyty yn effeithiol.

- Mae'r cyfnod Covid wedi bod yn gyfle i ddysgu ac addasu, ac o edrych yn ôl mae'n bosib gweld ein bod wedi methu cyfleoedd i atal unigolion rhag gorfod cael mynediad i'r ysbyty.

- Mewn ymateb i gwestiwn cadarnhaodd yr ATG bod digon o staff o ran Therapyddion Galwedigaethol i gyflawni dyletswyddau hanfodol ac eu bod yn gwneud eu gwaith yn arbennig o dda, ond nad yw'r capasiti ganddo i wneud digon o'r gwaith ataliol a rhagweithiol gyda'r tîm presennol.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â recriwtio, cadarnhaodd yr ATG bod recriwtio i swyddi Therapi Galwedigaethol o fewn y Cyngor wedi bod yn anodd yn y gorffennol. Mae y cyfle i weithio yn y maes iechyd, addysg a'r sector preifat i gyd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Nododd bod yn rhaid gwneud i weithio i'r Cyngor edrych yn fwy

deniadol. Adroddodd ei fod erbyn hyn yn cydweithio yn agos gyda'r Brifysgol i roi cyfleoedd addysgu i fyfyrwyr Cymraeg a denu staff i'r Cyngor. Ategodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth yr uchod, gan gadarnhau bod nifer o heriau mewn denu Therapyddion Galwedigaethol i Wynedd. Nododd, fod cwrs yn arfer cael ei gynnig ym Mhrifysgol Bangor ond cadarnhaodd bod y cwrs wedi dod i ben ac wedi symud i Brifysgol Glyndŵr. Nododd y gwaith sydd ar y gweill gyda Phrifysgol Cymru Bangor. Wrth gwrs, nododd y dymuniad i ddatblygu staff y Cyngor ei hun hefyd gan gadarnhau bod un swyddog yn mynychu y cwrs gradd Therapi Galwedigaethol ym Mhrifysgol Glyndŵr ar hyn o bryd.

- Mewn ymateb i sylw ynglŷn â gweithio a chydweithio yn amlasiantaethol nododd yr ATG ei fod mewn cyswllt gyda ei gyd-swyddog ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ble maent yn cydweithio ar unrhyw rwystrau a chymryd dull partneriaeth i ymateb. Nododd ei fod yn datrys unrhyw faterion drwy ymgysylltu a staff, mynd allan ar ymweliadau a chydweithio.

- Mewn ymateb i gwestiwn am gyd-storfa offer ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau Conwy a Môn, nododd yr ATG fod y storfa offer yn gweithio yn well ers y pandemic Covid, ond bod angen rhoi ychydig o sylw i rai materion ond ar y cyfan nad oedd wedi dod ar draws llawer o broblemau. Ategodd y Pennaeth Gwasanaeth bod llawer o fanteision i ddod ag arian at ei gilydd ond wrth gwrs nad oedd hynny yn ateb i bopeth. Nododd hefyd nad yw o reidrwydd yn arwain at well gwasanaeth, ac y dylai dod a'r arian at ei gilydd fod yn gam naturiol sy'n dilyn o gydweithio ar yr elfennau sylfaenol a chyflawni beth sy'n bwysig i unigolion. Ategodd y Pennaeth Adran bo problemau wedi bod gyda'r gyd-storfa yn y gorffennol, ond erbyn hyn bod y berthynas, drwy waith caled yr ATG wedi arwain at newidiadau. Nododd y Pennaeth mai un peth sydd wedi newid yw y berthynas waith - mae pawb yn ymddangos yn gliriach yn eu meddyliau ac yn fwy cytûn o ran beth sydd ei angen, ac mae wedi bod yn gyfnod o ddysgu. Nodwyd ei bod wedi bod yn gyfnod anodd i gyflawni addasiadau, ond bod man welliannau wedi cymryd lle, ond bod y gwaith wedi arafu dros gyfnod Covid.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â niferoedd o'r Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol sydd wedi eu cyflogi gan Wynedd cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth bod 15 yn gyflogedig i'r Adran a'i bod yn staff profiadol iawn. Cyfeiriodd yr ATG at yr angen i uwch-sgilio staff Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd i asesu a darparu man offer a chyfeiriodd at gyrsiau sydd ar gael ar gyfer hyn. Cadarnhaodd bod gwahaniaeth cyflog rhwng Therapyddion Galwedigaethol cyflogedig i'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Gwynedd a bod hyn yn gosod her ychwanegol wrth geisio adeiladu timau effeithiol.

  - Mewn ymateb i'r sylw am y pwyslais cenedlaethol ar wasanaethau arbedol ac adfer sgiliau, nododd ATG bod modd cwrdd â beth sy'n bwysig i unigolion a chynnal eu hannibyniaeth trwy weithio yn fwy rhagweithiol. Cyfeiriodd at achosion penodol lle'r oedd cefnogaeth y therapydd galwedigaethol a darpariaeth offer addas wedi sicrhau ein bod yn cyfarch yr hyn sydd yn bwysig iddynt ynghyd a darparu gwasanaeth cost effeithiol. Y weledigaeth yw datblygu gwasanaeth Therapi Galwedigaethol mwy rhagweithiol a chael mwy o adnoddau i ddatblygu tîm arbenigol symud a thrin.

  - Mewn ymateb i'r cwestiwn am y Grant Addasiadau i'r Anabl, cadarnhaodd yr ATG bod y grant ar gael ar gyfer addasiadau cymhleth, ac y gall unrhyw un wneud cais amdano, ond mai therapyddion galwedigaethol fyddai yn gwneud yr argymhelliad. Nododd bod llawer o waith i'w wneud yma i gyflymu y broses. Cyfeiriodd hefyd at yr astudiaeth achos, gan nodi mai asesiad amgylchedd oedd wedi ei wneud yn y lle cyntaf drwy gydweithio. Mae Covid wedi cyfyngu ar y gallu i gyflawni llawer o waith addasiadau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cadarnhawyd ei bod wedi bod yn gam pwysig iawn dod a'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor, ac er bod yr adroddiad yn ddiddorol, ei fod wedi codi llawer o gwestiynau.

Rhoddwyd y cyfle i'r Aelod Portffolio wneud unrhyw sylw. Nododd bwysigrwydd gwneud y peth iawn dros y trigolion, ei bod yn bwysig peidio â gadael i faterion lithro ac er mai dim ond un cronfa o arian sydd ar gael na ddylai hyn effeithio ar allu unrhyw un i wneud rhywbeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd Therapi Galwedigaethol am yr adroddiad, gan awgrymu y byddai cyflwyniad o'r math yn werthfawr i'r holl gynghorwyr. Crynhowyd prif gasgliadau'r drafodaeth/materion sydd angen sylw fel a ganlyn:-

- Mae ambell her yn wynebu y Gwasanaeth ond ei fod hefyd yn gyfnod o gyfleoedd i wella'r gwasanaeth. Nodwyd pryder nad yw lefel staffio yn cydfynd gyda'r gwaith sydd yn dod i mewn.
- Gweledigaeth yr Adran yw sefydlu gwasanaeth symud a thrin byddai yn cefnogi trefniadau rhyddhau o'r ysbyty yn amserol a sicrhau fod yr unigolyn yn derbyn y gefnogaeth a'r offer cywir i'w galluogi i gwrdd â'r hyn sydd yn bwysig iddynt. Mae cais wedi ei wneud am arian o'r gyllideb Byw yn Annibynnol Llywodraeth Cymru i ariannu y gwasanaeth yma.
- Y bydd angen cadw llygaid af effaith Covid-19 ar y gwasanaeth ac a oes ganddynt adnoddau digonol i ddelio gyda eu llwyth gwaith.

**PENDERFYNWYD :** Derbyniwyd cynnwys yr adroddiad a diolchwyd i'r Cynghorydd Dafydd Meurig, Aled Davies, Mari W Jones a Matthew Hawes a'r tîm am eu gwaith caled iawn. Cytunwyd i gadw golwg ar effaith Covid-19 ar y galw am y gwasanaeth therapi galwedigaethol ac effaith hynny ar y gwasanaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a daeth i ben am 13.00

**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I BWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 18fed Mawrth 2021 |
| **Teitl yr Eitem:** | Safle Penrhos Pwllheli |
| **Swyddog Cyswllt:** | Arwel Wyn Owen – Pennaeth Cynorthwyol |
| **Aelod :** | Cyng. Dafydd Meurig |

---

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

Darparu diweddariad o ran safle Penrhos, Llanbedrog a'r cydweithio gyda phartneriaid Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

**2. CEFNDIR**

2.1 Mewn cyfarfod cabinet a gynhaliwyd ar y 26ain o Fai 2020 cefnogwyd y bwriad i drosglwyddo ymrwymiadau Cymdeithas Dai Pwyliaid i Gymdeithas Tai Clwyd Alyn er mwyn cynnal gwasanaethau ar safle Penrhos. Roedd y Cabinet yn flaenorol ym mis Ionawr 2020 wedi cymeradwyo cais gan Gymdeithas Dai Clwyd Alyn i weithredu o fewn ffiniau Gwynedd.

**3. TRAFODAETH.**

3.1 Yn ystod 2019 amlygodd Rheoleiddwyr Tai Llywodraeth Cymru nifer o risgiau llywodraethu o ran hyfywedd y Gymdeithas Dai Pwyliaid gan amlinellu'r heriau mewn *adroddiad rheoleiddio*. Datganwyd pryder nad oedd gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol digonol i fuddsoddi i wella cyflwr yr adeiladau er mwyn cydymffurfio gyda safonau isafswm disgwyliedig . Yn ystod yr un cyfnod fe wnaeth adroddiadau Archwiliaeth Gofal Cymru amlinellu'r angen i fuddsoddi i uchafu safon y ddarpariaeth gofal.

3.2 Wedi treulio amser yn chwilio am ddatrysiad ac yn gwerthuso gwahanol bosibiliadau penderfynodd Bwrdd Cymdeithas Dai Pwyliaid, mewn cyfarfod ar yr 2il o Fai 2020, nad oedd yn bosibl iddynt barhau i gynnal y gwasanaethau ac y byddai yn rhaid yn iddynt drosglwyddo'r safle yn ei gyfanrwydd i Gymdeithas Dai Clwyd Alyn i osgoi y perygl o fethdaliad.

3.3 Ar y 12fed o Fedi 2020 trosglwyddodd holl ymrwymiadau Cymdeithas Tai Pwyliaid i Gymdeithas Tai Clwyd Alyn. Roedd hyn yn cynnwys 93 o fflatiau cysgodol a Chartref Gofal / Nyrsio (42 gwely).

3.4 Fe wnaeth hyn ddiogelu dyfodol y safle yn ei chyfanrwydd. Er bod ymdrech i geisio diogelu dyfodol hir dymor y cartref gofal gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, daeth yn amlwg oherwydd lefel ansicrwydd a'r angen i fuddsoddi na fyddai modd cynnal y cartref ond llwyddwyd i sicrhau bod y cartref yn cau mewn ffordd drefnus gan gyfyngu effaith ar ddefnyddwyr a'u teuluoedd a sicrhau amser i adnabod lleoliadau eraill o'u dewis. Ar y 7fed o Ragfyr 2020 fe gaewyd y cartref ar ôl sicrhau cefnogaeth addas ar gyfer yr holl breswylwyr oedd yn parhau.

3.5 Mae'r Eiddo Gwarchod ar y safle bellach yn cael ei chynnal gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn fel rhan o'i darpariaeth Gofal Ychwanegol ac maent bellach yn edrych ar raglen fuddsoddi i ail-ddatblygu yr unedau er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â safonau ac yn cyfarch angen lleol.

**DADANSODDIAD ANGEN**

3.6 Mae cydnabyddiaeth bod cyflenwad presennol o wlâu gofal yn arbennig gwlâu nyrsio yn ardal Llyn yn annigonol, gan fod y farchnad yn fregus a chyfyngedig. Fel comisiynwyr gwasanaeth gwyddwn nad oes darpariaeth amgen digonol yn lleol ac ei bod yn annhebygol y byddai'r farchnad agored yn llenwi y bwlch.

3.7 Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf roedd Cartref Gofal Penrhos wedi datblygu yn adnodd pwysig i'r gymuned leol yn arbennig y ddarpariaeth gofal nyrsio. Mae'r darparwr nyrsio agosaf wedi lleoli yng Nghriccieth ond mae nifer o deuluoedd yn wynebu taith bellach i ganfod gwasanaeth addas.

3.8 Er yn siomedig nad oedd modd cynnal y cartref, mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn parhau i gydweithio er mwyn ymchwilio'r posibilrwydd o allu darparu gwasanaethau gofal a llety o safon uchel mewn ffordd gynaliadwy, â'r holl bartneriaid, yn awyddus i ystyried modelau fyddai a photensial i drawsnewid y model gofal dros amser.

3.9 Mae Cyngor Gwynedd â'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod canfod datrysiad yn flaenoriaeth gan ragweld y bydd y galw am ddarpariaeth i bobl hŷn ag anghenion arbenigol, ynghyd a darpariaeth ar gyfer rhai ac iechyd meddwl dwys/dementia yn cynyddu yn sylweddol i'r dyfodol.

4.0 Mae risgiau sylweddol i landlordiaid cymdeithasol o ran perchenogi cartrefi gofal. Nid oes unrhyw gymorth grantiau fel sy'n bodoli ar gyfer tai cymdeithasol, ac nid yw'n bosibl defnyddio benthyciad preifat sy'n rhwystr i gymdeithasau tai o ran defnyddio asedau gofal fel sicrwydd, sy'n cyfyngu ei gallu i fenthyg ar eiddo eraill. Yn gyffredinol, mae'r gwasanaethau preswyl a nyrsio yn faich o safbwynt cyllido cynaliadwy cymdeithas dai.

4.1 Ymddengys y byddai angen cefnogaeth y Cyngor, a'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru os am geisio canfod datrysiad amgen.

4.2 Mae safle Penrhos yn cynnig nifer o gyfleoedd ac mae traddodiad o fod yn darparu gofal ar y safle. Y prif gyfyngiad o ran parhad y gwasanaeth oedd bod ansawdd a natur yr adeiladau yn anaddas ac anghydnaws a gofynion modern. Mewn sawl ystyr roedd y weledigaeth wreiddiol o ran darparu ystod o wasanaethau ar y llwybr gofal ar yr un safle yn un

blaengar iawn ac yn rhagflaenydd i'r cynlluniau tai gofal ychwanegol sydd wedi ymddangos yn ddiweddar.

4.3 Fel rhan o'r trosglwyddiad mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn wedi cadarnhau parodrwydd i gyd weithio gyda Chyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd o ran darparu gwasanaethau a'r defnydd o'r safle.

4.4 Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae'r pwyslais ar gyd-gynhyrchiant a chyd-ddarparu wedi cynyddu a'r rhagolwg yw y bydd disgwyl i wasanaethau symud yn nes at y dyfodol.

4.5 Ymddengys bod angen *cyfle i ymchwilio i gyfleoedd ac i adnabod cost a'r pecyn ariannol fyddai ei angen gan geisio adnabod partneriaeth* rhwng Cyngor Gwynedd, y Bwrdd Iechyd a'r Gymdeithas Dai, gyda phob un yn cyfrannu i'w cryfderau.

4.6 Gwyddwn fod y rhagolygon poblogaeth ar gyfer yr ardal yn awgrymu y bydd y galw am ddarpariaeth gofal a nyrsio arbenigol yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf ac y bydd diffyg darpariaeth ar gyfer unigolion sy'n dioddef gyda chyflyrau iechyd meddwl a dementia. Mae Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod heb atebion lleol y bydd yn rhaid i bobl deithio cryn bellter i dderbyn gwasanaeth gan gynyddu'r pwysau ar ardaloedd eraill a gwanhau cyswllt gyda theuluoedd a'r gymuned.

4.7 Mae cyfleoedd ehangach i archwilio dulliau newydd o weithredu ynghyd ar y modd o ddarparu gwasanaethau gofal ac iechyd at y dyfodol .

## 5. CAMAU NESAF

5.1 Rydym yn adnabod bod sicrhau gwasanaethau gofal addas, ac yn arbennig gwlâu gofal a nyrsio yn ardal Pen Llŷn yn flaenoriaeth er mwyn hyrwyddo lles unigolion bregus a chynnal gwasanaethau allweddol.

5.2 Bod manteision a chyfleoedd i gyd-weithio gyda'r Bwrdd Iechyd a Chymdeithas Dai Clwyd Alyn i ddatblygu atebion ar y cyd.

5.3 Bod natur ac ehangder y safle yn cynnig cyfleoedd i gydleoli ac ail - leoli gwasanaethau.

5.4 Bod galw am wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn debygol o barhau a chynyddu ac y bydd disgwyl darpariaeth fwy arbenigol.

5.5 Bod cyfle i ystyried model amgen ar gyfer darparu gwasanaethau gofal ac iechyd ar y cyd gan ddilyn y patrwm sydd wedi gosod mewn ardaloedd eraill e.e. Penygroes.

5.6 Mae Cymdeithas Dai Clwyd Alyn wedi datgan ei bwriad a pharodrwydd i fuddsoddi er mwyn uwchraddio safon y tai gwarchod er mwyn bodloni ei gofynion rheoleiddio. Maent wedi cychwyn llunio 'Master Plan' gan edrych ar wahanol bosibiliadau a ellid ei chyflawni ar y safle petai adnoddau ar gael.

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Mawrth 18, 2021 |
| **Teitl:** | Grant Cymorth Tai |
| **Pwrpas:** | Craffu'r cyfeiriad y bwriedir ei gymryd er mwyn sicrhau fod y Grant Cymorth Tai yn arwain at y gefnogaeth orau posib i'r digartref yng Ngwynedd ac i geisio atal digartrefedd yn y dyfodol. |
| **Swyddog cyswllt:** | Pennaeth Adran Tai ac Eiddo – Dafydd Gibbard |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Craig ab Iago |

---

**Cyflwyniad / Cefndir**

1. Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw'r Grant Cymorth Tai (arferai gael ei alw'n Rhaglen Cefnogi Pobl tan yn ddiweddar) sy'n cynorthwyo dros 2,000 o bobl bob blwyddyn yng Ngwynedd i fyw'n annibynnol. Mae'r rhaglen yn darparu cefnogaeth hanfodol i bobl sy'n wynebu amgylchiadau tai anodd iawn ac yn helpu rhai o'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain neu lety â chefnogaeth.

2. Rhaglen ymyrraeth gynnar ydyw sy'n helpu atal pobl rhag mynd yn ddigartref neu helpu pobl ddigartref i ddod o hyd i lety a dal gafael arno. Mae'n cefnogi pobl i fynd i'r afael â phroblemau megis dyled, diweithdra, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn y cartref, cysgu allan a materion iechyd meddwl. Anelir y gefnogaeth at yr hyn mae pobl ei angen, e.e. help i ymdrin â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau, help i wella eu hiechyd a'u lles, a/neu help i symud ymlaen i gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant, a gwella eu sgiliau byw cyffredinol.

3. Yn gryno, nod y rhaglen yw atal neu leihau digartrefedd a heb fodolaeth y grant hwn byddai effaith pellgyrhaeddol ar ein gallu fel Cyngor i gefnogi trigolion Gwynedd i osgoi digartrefedd ac yn llesteirio'n gallu i geisio ail gartrefu mor fuan â phosib y rhai sydd ddigon anffodus i ddarganfod eu hunain yn ddigartref.


4. Tua diwedd 2019 cawsom ragrybudd fod bwriad gan y Llywodraeth i ail edrych ar y grant hwn ac roedd pryder y gallem fod yn wynebu toriad yn y swm yr ydym yn ei dderbyn ar hyn o bryd, sef £5.1M y flwyddyn. Roedd bwriad felly i ofyn am gymorth y Pwyllgor Craffu Gofal i graffu defnydd hanesyddol y grant a pharatoi at orfod cynnal proses flaenoriaethu er mwyn adnabod sut i leihau'r cymorth yr oeddem am allu ei gynnig i'r digartref yng Ngwynedd.

5. Fodd bynnag, mae'r argyfwng digartrefedd sydd wedi ei amlygu, ac i raddau helaeth wedi ei waethygu, yn sgil Covid 19, yn golygu fod dyfodol y grant hwn wedi newid yn llwyr. Yn hytrach na gorfod wynebu toriad posib, rydym bellach wedi derbyn dyraniad ychwanegol o £1.6M y flwyddyn ac felly'n chwilio am gymorth y Pwyllgor i graffu'r cyfeiriad y bwriedir ei gymryd wrth geisio sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posib o'r cyfle newydd yma

i sicrhau ein bod yn darparu'r gefnogaeth orau posib i'r digartref yng Ngwynedd ac yn ceisio atal digartrefedd yn y dyfodol.

**Digartrefedd yng Ngwynedd**

6. Fel y gwelir yn y graff isod, ers dyfodiad Deddf Tai 2014, oedd yn newid y diffiniad o ran pwy oedd yn gymwys am gefnogaeth digartrefedd, mae'r nifer cyflwyniadau blynyddol wedi cynyddu o oddeutu 550 y flwyddyn i oddeutu 750 y flwyddyn, cynnydd o 36%.




7. Arweiniodd hyn at bwysau sylweddol ar yr Uned Digartrefedd o ran eu gallu i gynnig cefnogaeth i unigolion sydd yn aml iawn yn fregus ac yn gwbl ddibynnol ar gymorth gan y Cyngor.

8. Yr her fwyaf oedd darganfod opsiynau ail gartrefu ar gyfer yr unigolion hyn, yn arbennig llety dros dro addas. Gwyddom fod y diffyg tai cyffredinol yn y Sir, a gweddill Cymru, yn golygu nad oes stoc ddigonol ar gael i ail gartrefu person digartref yn syth. Mewn achos lle nad oes gan berson digartref opsiwn arall, mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i gynnig llety dros dro. Cyn dyfodiad deddf 2014 roedd modd i'r Cyngor ymdopi drwy wneud defnydd o dai oedd gennym ar brydles gan Landlordiaid preifat ar gyfer y pwrpas hwn. Roedd oddeutu 60 o dai ar gael gennym i'r pwrpas hwn ar y pryd.

9. Gyda'r cynnydd sylweddol yn y niferoedd yn sgil Deddf 2014, nid oedd y stoc tai dros dro yn ddigonol i gwrdd â'r angen a bu'n rhaid cychwyn defnyddio mwy ar lety gwely a brecwast er mwyn cwrdd â'n dyletswydd statudol i gynnig llety brys.

10. Mae'r pandemig presennol wedi gwaethygu'r sefyllfa'n sylweddol unwaith yn rhagor. Yn gwbl synhwyrol a dealladwy, ar gychwyn y clo ym mis Mawrth 2020, gofynnodd y Llywodraeth i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru sicrhau nad oedd neb yn cysgu allan ar y stryd. Diwygiwyd y rheoliadau cenedlaethol dros nos er mwyn sicrhau fod gan bawb, ta waeth beth eu hamgylchiadau, y gallu i gael cefnogaeth gan eu Hawdurdod Lleol os oeddent yn wynebu digartrefedd.

11. Mae'r cyfnodau clo wedi cael effaith pellgyrhaeddol ar ein cymunedau ac mae'r bygythiad o golli cyflogaeth, y straen ar berthnasau mewn cyfnodau clo estynedig, y pwysau ar y gwasanaeth iechyd a'r effaith ar iechyd meddwl i gyd wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol yn y nifer sy'n wynebu digartrefedd. Mae'r sefyllfa'n parhau i ddatblygu wrth gwrs ac ni wyddom pa fath o gynnydd pellach y byddwn yn ei wynebu dros y misoedd nesaf.

12. Fel y dengys y graff uchod, mae'r niferoedd digartref eleni wedi cynyddu nes eu bod yn agos at 950, sef cynnydd o 26% mewn un flwyddyn a 71% yn uwch nag oedd yn 2014.

13. Un sgil effaith uniongyrchol yn deillio o hyn yw sefyllfa lle mae gennym bellach oddeutu 94 o unigolion mewn llety gwely a brecwast o'i gymharu ag oddeutu 25 yr adeg hon y llynedd. Rydym hefyd wedi gorfod cynyddu ein stoc o dai dros dro a bellach mae oddeutu 95 mewn defnydd gennym. Mae ein dwy hostel digartref hefyd yn llawn ac mae cyfanswm oddeutu 190 o unigolion, cyplau a theuluoedd mewn llety dros dro yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

14. Mae'r gost o gartrefu unigolion mewn llety gwely a brecwast yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig.

15. Rydym yn wynebu sefyllfa ddigynsail ac mae'r galw am lety dros dro y tu hwnt i'n gallu i'w gyfarch. Gyda dim arwyddion o welliant i'r sefyllfa yn y tymor byr, mae'r sefyllfa yn eithriadol o heriol, gall y niferoedd gynyddu ymhellach a bellach mae pwysau sylweddol ar staff yr Uned Digartrefedd.

**Ymateb y Cyngor**

16. Nid yw llety dros dro, yn arbennig mewn un ystafell mewn llety gwely a brecwast, yn llety addas ar gyfer galluogi i drigolion Gwynedd fyw bywyd urddasol a ffyniannus. Mae mynediad at lety safonol a diogel yn gwbl hanfodol os am integreiddio i gymuned, hwyluso cyfleon gwaith a gwella ansawdd iechyd a lles unigolion.

17. Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn datgan yn glir nad ydym yn dymuno gweld neb yn ddigartref yng Ngwynedd. Er mwyn cyrraedd y nod yma byddwn wrth gwrs angen sicrhau fod cyflenwad digonol o dai ar gael i gwrdd â'r angen drwy'r sir. Fodd bynnag, ni allwn guddio oddi wrth y ffaith ei bod yn debygol y byddwn wastad angen gallu cynnig cymorth a llety brys i'r rhai sy'n wynebu digartrefedd.

18. Ein dyhead felly yw dirwyn i ben y gorddefnydd o lety gwely a brecwast drwy ddarparu cyflenwad digonol o dai dros dro a datblygu llety â chefnogaeth addas ein hunain ar gyfer ei ddefnyddio i ddiwallu'r gofyn hwn. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai yn gosod allan yn glir sut y byddwn yn cyflawni hyn ac mae'n sicrhau fod cyllideb ddigonol i ddarparu adnodd o'r fath ar gael dros y blynyddoedd nesa. Gyda chymorth grant sylweddol gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn datblygu dros 50 o unedau "Llety a Chefnogaeth" pwrpasol.

19. Mae angen i lety o'r fath gael ei leoli mewn lleoliadau sy'n golygu na fydd unigolion angen cael eu symud oddi wrth eu cymunedau. Mae'r mynediad at gefnogaeth teulu a chyfeillion, ynghyd â'r gallu i gael mynediad rhwydd at wasanaethau iechyd a lles cyfarwydd yn gwbl hanfodol wrth geisio wynebu sefyllfa druenus digartrefedd. Felly byddwn yn ceisio darparu

ein datblygiadau “Llety â Chefnogaeth” newydd i gyd-fynd â’r galw ym mhob ardal o’r sir a gwneud popeth posib i osgoi'r angen i gludo pobl i gymunedau sy’n ddieithr iddynt.

20. Er y bydd hyn yn golygu y byddwn yn gallu cynnig llety dros dro o ansawdd derbyniol i’r rhai sy’n wynebu digartrefedd, nid yw llety yn unig am gwrdd ag anghenion cymhleth a heriol sydd yn amlach na pheidio ynghlwm i ddigartrefedd. Dyma pam mae’r Grant Cymorth Tai yn gwbl hanfodol.

21. Yn aml iawn mae unigolion sy’n wynebu digartrefedd angen cefnogaeth am gyfnod er mwyn ceisio dygymod â’u sefyllfa. Mae’r unigolion, cyplau a theuluoedd hynny sydd heb opsiwn ond derbyn llety brys gan y Cyngor yn aml iawn angen cefnogaeth ychwanegol i ddarganfod llety addas yn unig. Yn aml iawn maent angen cefnogaeth gyda materion yn ymwneud â thrais yn y cartref, dibyniaeth alcohol, dibyniaeth cyffuriau, iechyd meddwl, dyledion, troseddu, perthynas gyda chymar neu deulu wedi torri lawr.

22. Felly nid yw darparu llety addas ynddo’i hun am fod yn ddigonol i helpu unigolion digartref bregus i allu ymdopi â’r heriau eraill sydd yn gallu gwneud eu bywyd yn gymhleth iawn.

23. Mae’r Grant Cefnogaeth Tai yn darparu adnodd ariannol blynyddol ar gyfer darparu’r gefnogaeth yma. Mae hyn yn cynnwys darparu cefnogaeth ariannol sylweddol er mwyn gallu derbyn cymorth gan nifer o ddarparwyr arbenigol allanol. Gweler yn Atodiad A fanylion pellach am y gwasanaethau gwerthfawr a geir gan y sefydliadau a chyrff yma.

24. Yn ogystal â’r gefnogaeth allanol yma, mae rhan helaeth y gwasanaeth a gynigir i’r digartref yn cael ei ddarparu gan dîm profiadol o staff mewnol. Mae’r elfennau statudol i’r gwaith sy’n cael ei gyflawni gan y Tîm yma h.y. pwynt cyswllt cyntaf i’r digartref, cymorth i atal digartrefedd, cynnal asesiad anghenion, llunio cynllun cartrefu/cefnogaeth a darparu llety dros dro lle bo’n briodol. Ail gartrefu unigolion yn barhaol mewn llety addas yw’r prif nod wrth gwrs.

25. Yn ogystal â’r elfennau statudol hyn, mae’r tîm hefyd yn darparu cefnogaeth bellach, cwbl hanfodol, os am helpu unigolion i ail sefydlu eu hunain neu gorau oll i osgoi digartrefedd yn y lle cyntaf. Mae’r gefnogaeth hwnnw’n cynnwys cymorth i:

    - ddatblygu sgiliau byw’n annibynnol da, megis siopa, coginio a glanhau;
    - ddod yn hyderus wrth reoli arian a chyllidebu
    - gael mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol
    - gysylltu â sefydliadau perthnasol eraill am gymorth a chyngor
    - gael mynediad at addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddol
    - ddod yn rhan o gymuned ehangach
    - lenwi ffurflenni cais am dai a chysylltu â landlordiaid a hosteli
    - baratoi i symud ymlaen i lety parhaol
    - sefydlu cyflenwadau nwy/trydan
    - gynnal tenantiaeth ac osgoi wynebu digartrefedd yr eildro

26. Mae’r adnodd staff sydd o fewn yr Uned Digartrefedd ar gyfer cefnogaeth tenantiaeth o’r math yma wedi aros yn weddol gyson ers cyn dyfodiad Deddf Tai 2014 ac felly mae’n seiliedig ar y niferoedd digartref bryd hynny. Yn ystod y pandemig rydym wedi gallu manteisio ar arian ychwanegol gan y Llywodraeth i gynyddu ein hadnodd cefnogaeth ac mae hynny wedi bod yn werthfawr tu hwnt wrth geisio rhoi cymorth i’n cleientiaid.

27. Yn sgil y cynnydd o 71% yn y niferoedd digartref ers sefydlu’r tîm cefnogaeth cyn 2014, bellach rydym yn gweithredu ar raddfa staffio o un swyddog cefnogaeth i oddeutu bob 60 o unigolion sydd angen cefnogaeth. Nid oes modd i un swyddog gefnogi cynifer o unigolion bregus a chanlyniad hyn yw bod unigolion yn methu a dygymod a’r cymhlethdodau yn eu bywydau sy’n eu rhwystro rhag gallu darganfod cartref parhaol ac o ganlyniad yn gorfod treulio llawer rhy hir mewn llety dros dro.

28. Mae arian newydd y Grant Cymorth tai yn rhoi’r cyfle i ni wneud yn iawn am y sefyllfa yma. Mae modd chwyddo maint y tîm cefnogaeth fewnol yn sylweddol gyda’r nod o anelu at un swyddog yn cefnogi oddeutu 25 o unigolion bregus. Mae’r arian ychwanegol gan y Llywodraeth yn rhoi’r cyfle i ni roi trefniadau cefnogaeth briodol mewn lle am y tro cyntaf ers 2014.

**Casgliadau**

29. Yn sgil cynnydd o 71% yn y niferoedd digartref, ni all yr Uned Digartrefedd gwrdd â’r galw am eu gwasanaeth ar hyn o bryd.

30. Nid yw’r defnydd o lety dros dro mewn gwely a brecwast yn gynaliadwy ac nid yw’n cynnig llety o ansawdd derbyniol i hwyluso gallu unigolion, cyplau a theuluoedd i oresgyn sefyllfaoedd truenus a byddwn yn datblygu “llety â chefnogaeth” addas ein hunain gan anelu i ddirwyn i ben yr angen i ddefnyddio llety gwely a brecwast. Byddwn yn blaenoriaethu arian ychwanegol a ddaw drwy’r Grant Cymorth Tai er mwyn ariannu costau rhedeg y datblygiadau hyn.

31. Byddwn yn ceisio darparu “llety â chefnogaeth” o fewn y cymunedau lle mae’r galw gan drigolion y sir gan osgoi’r angen i symud unigolion i gymunedau sy’n ddieithr iddynt.

32. Nid yw darparu llety addas ynddo’i hun am wella ein sefyllfa digartrefedd gan fod yr unigolion bregus sydd yn ein gofal angen cefnogaeth lawer iawn gwell na’r hyn sydd wedi bod yn bosib i ni ei gynnig ers 2014.

33. Byddwn yn blaenoriaethu’r arian ychwanegol a ddaw drwy’r Grant Cymorth Tai er mwyn chwyddo’r tîm cefnogaeth mewnol er mwyn gallu rhoi cefnogaeth briodol i gynorthwyo’r digartref i allu sefydlu cartref parhaol a chynaliadwy mor fuan â phosib.

34. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio gyda’r darparwyr a nodir yn Atodiad A gan gynnal ymarferiad ar y cyd gyda hwy dros y flwyddyn nesaf i adolygu’r gwasanaethau gwerthfawr a geri ganddynt ar hyn o bryd gan ddychwelyd gydag adroddiad pellach ar ganfyddiadau’r gwaith hwnnw i’r Pwyllgor Craffu Gofal am fewnbwn pellach.

35. Gofynnir i’r Pwyllgor graffu’r cyfeiriad a amlinellir uchod gan gadw mewn cof yr angen i weithredu yn gyflym yng ngoleuni'r argyfwng digartrefedd sy’n ein hwynebu ar hyn o bryd.

**Atodiadau**

Atodiad A – Darparwyr a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai presennol.

**ADAIN CEFNOGI POBL**

# PWY SY'N GALLU DARPARU GWASANAETHAU GRANT CEFNOGI TAI YNG NGWYNEDD?

# CYFARWYDDIADUR O DDARPARWYR GWASANAETH WEDI EU HACHREDU

Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN
☎ 01286 682603 unedpobl@gwynedd.gov.uk

Mawrth 2021

**Adra (Tai) Cyfyngedig ☎: 0300 123 8084**
**Ymholiadau@adra.co.uk www.adra.co.uk**
**Bangor:** Ty Coch, Llys y Dderwen, Parc Menai, Bangor LL57 4BL
**Caernarfon:** Ty Buddug, Doc Fictoria, Caernarfon LL55 1SR
**Porthmadog:** Uned 6A/7A Parc Busnes Penamser, Porthmadog, LL49 9GB
**Dolgellau:** Swyddfa Glan Wnion, Ffordd Aran, Dolgellau LL40 1LH
Yn darparu cartrefi gyda warden cefnogol a llinellau gofal i bobl hŷn, ac unigolion gydag anghenion cefnogaeth yng Ngwynedd.

**Age Cymru Gwynedd a Môn, Y Cartref, Bontnewydd, Caernarfon, Gwynedd LL54 7UW ☎ 01286 677711**
I hyrwyddo lles pobl hŷn yng Ngwynedd ac Ynys Môn drwy ffyrdd yr ystyrir yn elusengar. I wella ansawdd bywyd i bobl hŷn a'u gofalwyr.

**Allied Health Care, Islawr Llawr Gwaelod Plas Yn Dre, Stryd Plas Yn Dre Street, Dolgellau, LL40 1AD ☎ 01341 423733 ac Uned 6B, Llys Onnen, Parc Menai, Bangor. LL57 4DF ☎ 01248 674925**
Yn darparu gwasanaethau gofal cartref i bobl oedrannus, gydag elfen fwy personol. Gofal dydd, gofal preswyl 24 awr, gwasanaeth deffro yn y nos, cysgu i mewn. Gwasanaethau cefnogaeth a seibiant i bobl gydag anableddau dysgu.

**Anheddau Cyf., 6 Llys Britannia, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4BN ☎ 01248 675910**
Darparwr gofal cymdeithasol yn gweithio efo unigolion gydag anghenion cefnogaeth yng Ngwynedd.

**Antur Waunfawr, Bryn Pistyll, Waunfawr, Caernarfon, LL55 4BJ ☎ 01286 650721**
Yn darparu cefnogaeth 24 awr y dydd, yn y gwaith, yn y cartref ac ar gyfer gweithgareddau Iechyd a Llesiant i oedolion ag anableddau dysgu yn Arfon.

**Bywyd Bywiog Cyf, Gwylfa, Nebo LL54 6EE**
**bywydbywiog@yahoo.co.uk**
Nod Bywyd Bywiog yw darparu tai a chefnogaeth / chefnogaeth symudol ar gyfer pobl Ifanc 16-21 ac i oedolion gydag anawsterau iechyd meddwl
Cefnogi'r unigolyn i gael/cynnal ei denantiaeth, datblygu sgiliau i fyw yn annibynnol ac i gael bywyd llawn ac i deimlo'n hapus.

**CAIS, Dawn Centre, Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn, LL29 8PD ☎ 01492 523690**
Yn darparu ystod helaeth o wasanaethau yn cynnwys dadwenwyno cleifion mewnol, ailsefydlu preswyl, symud ymlaen yn y gymuned a chwnsela cyfrinachol yn y gymuned yng Ngwynedd.

**Cartrefi Cymru Co-op, 30 Stryd y Deon, Bangor, LL57 1UR ☎ 01248 360004**
Ein nôd yw darparu gwasanaeth Gofal a Chefnogaeth personol arbenigol sy'n seiliedig ar anghenion unigol i bobl i fyw bywyd da ac i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Gwnawn hyn drwy ddarparu'r gwasanaethau canlynol: Byw â Chefnogaeth 24 awr, Cefnogaeth Sesiynol, Gofal Cartref a Thai Gofal Ychwanegol, Cefnogaeth Cysylltiedig â Thai.

**Gwasanaethau Cefnogol Cyfle, 80 Madoc Street West, Porthmadog, LL49 9EA ☎ 01766 514004**
Yn darparu llety symud ymlaen a chefnogaeth estyn allan. Cefnogaeth symudol gyda chefnogaeth ar alwad 24 awr i bobl ifanc, rhieni sengl a theuluoedd rhwng 16-25 mlwydd oed yn Ne Gwynedd.

**Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru, 14a Ashcourt, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL55 4DF ☎ 01248 670852**
Yn darparu gwasanaeth adfocatiaeth ar faterion hawliau dinesig, materion tai, gwaith, gwasanaethau dydd, budd-daliadau ac yn y blaen i bobl gydag anabledd dysgu, rhieni, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau neu unrhyw un sydd yn credu y gallwn helpu.

**Cyngor Gwynedd Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Arfon (derbynfa) – Swyddfa Ardal Arfon, Penrallt, Caernarfon, LL55 1BN ☎ 01286 682646**
**Dwyfor (derbynfa)– Frondeg, Pwllheli ☎ 01758 613131**
**Meirionnydd (derbynfa) – Cae Penarlag, Dolgellau, LL40 2YB ☎ 01341 422341**
Yn darparu gwasanaethau cefnogi i bob grŵp defnyddwyr gwasanaeth yng Ngwynedd.

**Cyngor Gwynedd Adran Tai**
**Gwasanaeth Cefnogaeth Tenantiaeth - Arfon ☎ 01286 6828860 / Dwyfor ☎ 01758 704030 / Meirionnydd ☎ 01341 424336**
Yn darparu'r cymorth sydd ei angen i gynnal tenantiaeth ac i fyw bywyd annibynnol.

**Grŵp Cynefin, Tŷ Silyn, Y Sgwâr, Penygroes, Caernarfon LL54 6LY ☎ 0300 1112 122**
Yn darparu a rheoli ystod eang o lety gan gynnwys rhai hefo llinell argyfwng. Hefyd yn darparu cymorth mewn sawl maes i helpu cynnal tenantiaethau a byw bywyd annibynnol gan gynnwys Tai Gwarchod a Tai Gofal Ychwanegol.

**Tai Gogledd Cymru, 30 Stryd y Deon, Bangor, LL57 1UR ☎: 01492572727**
CustomerServiceMailbox@nwha.org.uk/
Supported.Housing@nwha.org.uk
Yn darparu ac yn rheoli ystod eang o gynlluniau tai cefnogol yn amrywio o hosteli i'r digartref i dai a rennir a fflatiau hunangynhaliol. Yn darparu ystod o wasanaethau cefnogaeth i bob grŵp cleient yng Ngogledd Gwynedd. Mae'r tîm Estyn Allan ac Ail Sefydlu yn gweithio gyda phobl sydd yn cysgu allan, ac yn cynnig cefnogaeth a gwybodaeth sydd yn helpu pobl i ail sefydlu mewn llety addas. Hefyd ym Mangor, cynllun tai gwarchodol i bobl hŷn dros 60 oed gyda gwasanaeth Warden, a Gofal Ychwanegol i bobl dros 55.

**GISDA, 22 / 23 Y Maes, Caernarfon LL55 2NA ☎ 01286 671153**
Rydym yn darparu llety a chefnogaeth i bobl ifanc digartref a bregus gan gynnwys teuluoedd ifanc ar draws Gwynedd. Mae gennym brosiectau eraill sydd yn cefnogi Nod ac Amcanion yr elusen yn ogystal.

**GISDA, Yr Hen Go-op, 49 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd. LL41 3AG ☎ 01766 830260**
Rydym yn darparu llety a chefnogaeth i bobl ifanc digartref a bregus gan gynnwys teuluoedd ifanc ar draws Gwynedd. Mae gennym brosiectau eraill sydd yn cefnogi Nod ac Amcanion yr elusen yn ogystal.

**Gorwel, 12 Stryd Penlan, Pwllheli, LL53 5DE ☎ 01758 703087 digartrefedd@gorwel.org**
Yn darparu a rheoli ystod eang o gynlluniau tai â chymorth yn amrywio o hosteli ar gyfer y digartref, tai a rennir a fflatiau hunangynhwysol yng Ngwynedd. Mae’r darpariaeth hefyd yn cynnwys Cynllun Cefnogaeth Symudol ledled Gwynedd.

**Gorwel, 12 Stryd Penlan, Pwllheli, LL53 5DE ☎ 01758 703087 cydgysylltydd@gorwel.org**
Yn darparu cymorth fel y bo'r angen i bobl sydd â nifer o anghenion cefnogaeth (e.e. iechyd meddwl, anabledd dysgu lefel isel, pobl sy'n gadael carchar, yn datgysylltu'n aml gyda darpariaeth cefnogi) yng Ngwynedd

**Gorwel - Gwasanaethau Trais yn y Cartref ☎ 0300 1112 122 gorwel@gorwel.org**
Yn cynnig lloches (merched yn unig) a gwasanaethau cymorth yn y gymuned fel y bo'r angen i ferched, dynion a'u plant, sy’n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig yng Ngwynedd.

**Hafan Cymru, 12B Ash Court, Parc Menai, Bangor, LL57 4DF ☎ 01248 671891**
**enquires@hafancymru.co.uk**
Tai cefnogol i ferched a’u plant, sydd wedi bod drwy gam-drin domestig yn y gorffennol neu’r presennol.

**NACRO, 64-68 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd, LL57 1NR ☎ 07483 0303196**.
Elusen cyfiawnder cymdeithasol sydd yn cynnig gwasanaethau cefnogaeth, yn ymwneud a materion tai, yn Ngwynedd.

**Seren, Uned 2 Llwyngell, Blaenau Ffestiniog LL41 3NE ☎ 01766 832378**
Yn darparu cefnogaeth 24 awr yn y cartref, yn y gweithle ac yn ystod gweithgareddau hamdden i oedolion ag anableddau dysgu yng Ngwynedd.

**Shelter Cymru, Beach Road, Y Felinheli, Bangor ☎ 01248 671005** yfelinheli@sheltercymru.org.uk
Yn darparu cymorth tenantiaeth annibynnol a gwasanaethau cefnogi yng Ngwynedd ar gyfer tenantiaid a pherchnogion tai sydd dan fygythiad o ddigartrefedd.